

# Datblygu a Dathlu Diwylliant Sefydliadol

a

# GWOBRAU BLYNYDDOL 2022

**1 MAWRTH 2023**



hpma Cymru

**GYDA CHI, DROSOCH CHI**

*Gwella Iechyd Trwy Bobl*


**Stadiwm Swansea.com**
**Plasmarl**
**Abertawe**
**SA1 2FA**

**www.hpma.org.uk/cymru/**

**@HPMACymru**

# CROESO



**Croeso! Mae'n bleser mawr gennyf eich croesawu i Gynhadledd a Seremoni Wobrwyo HPMA Cymru, 1 Mawrth, 2023.**

Mae digwyddiad heddiw yn canolbwyntio ar "Datblygu a Dathlu Diwylliant Sefydliadol" sy'n treiddio trwy GIG Cymru. Mae Cymru yn gyfuniad o ddiwylliannau amrywiol a'r amrywiaeth hwn sy'n ein gwneud yn wych, trwy ddatblygu timau sy'n dwyn safbwyntiau a thalentau gwahanol ynghyd, a fydd yn y pen draw yn cynyddu arloesedd ac yn ysgogi perfformiad uwch.

Diwylliant sefydliadol sy'n ein llunio ni a'n sefydliadau. Caiff diwylliant ei greu trwy gasgliad o werthoedd, disgwyliadau ac arferion sy'n arwain ac yn llywio gweithredoedd pawb yn y sefydliad. Trwy gael diwylliant sefydliadol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo amrywiaeth, caiff pobl eu grymuso i ddatblygu eu talentau a'u sgiliau. Mae hyn yn creu diwylliant lle y caiff pob llais yn cael ei glywed. Diben y gynhadledd heddiw yw cyflwyno'r gwaith anhygoel sy'n digwydd ledled GIG Cymru a rhannu'r arferion gorau fel y gallwn ni i gyd ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddiwylliannau ein sefydliadau.

Rydym hefyd am ddathlu'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud ledled GIG Cymru. Roedd safon y ceisiadau am wobrau eleni yn anhygoel o uchel a braf oedd darllen drwy'r prosiectau a'r mentrau rhagorol sy'n cael eu cynnal ar lefel leol. Byddwn yn annog y rhai sydd wedi rhoi cynnig ar ein gwobrau, a'r rhai a allai fod yn ystyried gwneud cais yn y dyfodol, i gyflwyno cais i Wobrau Cenedlaethol HPMA sydd newydd agor ar gyfer enwebiadau. Mae'n amlwg y dylid dathlu ansawdd uchel y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn ein rhanbarth ar lefel genedlaethol. Dyma ail ddigwyddiad wyneb-yn-wyneb HPMA Cymru yn dilyn y pandemig COVID-19 ac rydym mor falch o weld cymaint ohonoch yn mynychu.

Ni fyddai'r digwyddiad hwn yn bosibl heb yr holl fyrddau iechyd ledled GIG Cymru sydd wedi cefnogi HPMA Cymru a heb gymorth ein noddwyr, gan gynnwys ein prif noddwyr, ACT. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod yn rhan o drefnu a chynllunio'r gynhadledd a'r gwobrau. Heb waith caled y rhai ar y pwyllgor ni fyddem yma heddiw.

Diben HPMA Cymru yw gwella'r cyfraniad rheoli pobl ym maes gofal iechyd ac, yn y pen draw, gwella gofal cleifion. Mae gan Gangen Cymru rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi aelodau i lunio rhwydweithiau cymorth proffesiynol a phersonol, hyrwyddo dysgu, cyflwyno cydweithwyr i syniadau newydd a gwahanol ffyrdd o weithio a darparu'r cyfle a'r amser i fyfyrio ar ymarfer. Mae hyn oll yn meithrin gallu ac effaith rheoli pobl yng Nghymru.

Diolch yn fawr a gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r digwyddiad heddiw.

*Gareth*

**Gareth Hardacre**
Cadeirydd Pwyllgor
HPMA Cymru

# AGENDA

## *Datblygu a Dathlu Diwylliant Sefydliadol*

| | |
|---|---|
| **9:00am** | **Cyrraedd a Chofrestru: Te a Choffi** |
| **9:30am** | Gair o Groeso: Gareth Hardacre, Cadeirydd Pwyllgor HPMA Cymru |
| **10:00am** | Non Richards - Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg<br>*PCGC: Gwnewch y pethau bychain!* |
| **11:00am** | Prif Siaradwr: Noel Mooney - Prif Weithredwr Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| **12:00pm** | **Seremoni Wobrwyo HPMA Cymru** |
| **12:45pm** | Cinio, Rhwydweithio a fideo o arddangosfeydd o Eisteddfod GIG Cymru |
| **1:30pm** | *Sut mae Rhwydweithiau Staff yn Cefnogi Diwylliant Sefydliadol:*<br><br>Raja Biswas: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br><br>Robert Workman: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Rhwydwaith CALON |
| **2:30pm** | **Egwyl prynhawn: Te, Coffi a Phice ar y Maen** |
| **3:00pm** | **Ystafelloedd Trafod: Dysgu a Rennir gan Fyrddau Iechyd ar draws GIG Cymru:**<br><br>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: *Dyma ein PCGC ni - Rhaglen Newid Diwylliant gan gynnwys Gwerthoedd ac Ymddygiadau*<br><br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: *Y Gymraeg*<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: *Ymgysylltu â staff nyrsio a gweithredu rhaglen arweinyddiaeth ddiwylliannol*<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: *Herio Penderfynu Torfol: 5 Ffordd o Feithrin Diogelwch Seicolegol yn eich sefydliad* |
| **4:00pm** | **CLOI** |

# EIN SIARADWYR



**Gareth Hardacre**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl, Datblygu Sefydliadol a Chyflogaeth - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) / Cadeirydd HPMA Cymru

Ymunodd Gareth â PCGC ym mis Mehefin 2018 ac mae'n Aelod Siartredig o'r CIPD. Ef hefyd yw Cadeirydd presennol HPMA Cymru, ac mae'n gwasanaethu ar Bwyllgor Cenedlaethol HPMA.

Dechreuodd ei yrfa yn y Gwasanaeth Sifil ym 1986 fel Swyddog Gweithredol ar gyfer Mynediad Uniongyrchol yn Adran Adnoddau Dynol y Comisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu. Ei brosiect cyntaf oedd cyflwyno HRIS TG ar gyfer Rhanbarth Cymru, cyn goruchwylio tîm AD rhanbarthol Cymru. Gan gyflawni Ôl-radd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ym 1989, treuliodd 6 blynedd mewn rolau Adnoddau Dynol ar draws Adran Gyflogaeth Comisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu a'r Adran Gyflogaeth yn Ne Cymru.

Gan hyrwyddo ei yrfa yn y sector preifat, bu'n gweithio ar draws ystod o gwmnïau Cynhyrchu ac Uwch-dechnoleg o'r radd flaenaf. Yn ystod y cyfnod hwn, enillodd hefyd Radd Meistr (MA) mewn Rheoli Adnoddau Dynol a DBA (Diploma mewn Gweinyddu Busnes) o Brifysgol De Cymru.

Gan ddychwelyd i'r Sector Cyhoeddus yn 2005, cymerodd y swydd fel Pennaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gan arwain tîm Adnoddau Dynol yr Awdurdod. Yn 2015, dechreuodd yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, lle bu'n arwain y timau Gweithredol, Meddygol, Iechyd Galwedigaethol a Datrysiadau'r Gweithlu cyn ymuno â PCGC fel Cyfarwyddwr y Gweithlu. Yn ystod y cyfnod hwn, cynlluniodd a chyflwynodd ymgyrch Recriwtio Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Nyrsys, a enillodd gwobr HPMA y DU. Bu hefyd yn cadeirio nifer o ffrydiau gwaith Cymru Gyfan gan gynnwys Hunanwasanaeth ESR, Grŵp y Gweithlu Nyrsio a'r Grŵp Banc ac Asiantaeth.

Mae'n gyn-lywodraethwr Annibynnol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn gyn-aelod o'r Bwrdd yng Ngyrfa Gwent.

hpma Cymru

# EIN SIARADWYR



## Noel Mooney

Prif Swyddog Gweithredol / Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Yn gyn-bêl-droediwr proffesiynol, mae Noel wedi mynd yn ei flaen i fod yn Brif Weithredwr cymdeithasau pêl-droed ledled y DU ac Iwerddon. Treuliodd Noel bron i ddegawd yn UEFA fel Pennaeth Strategaeth, gan arwain datblygiad Pêl-droed Ewropeaidd ar draws 55 o farchnadoedd. Yn ystod yr amser hwnnw, cymerodd swydd Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro Cymdeithas Bêl-droed Iwerddon. Daeth yn Brif Weithredwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru ym mis Awst 2021 ac mae'n arwain ar weithredu 'Ein Cymru' – strategaeth i sbarduno pêl-droed Cymru erbyn 2026. Mae gan Noel radd Meistr mewn Llywodraethu Chwaraeon Ewropeaidd o Sciences Po, Paris - ac mae'n Gyfarwyddwr Bwrdd rhyngwladol trwy IMD Swistir.



## Non Richards

Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Non Richards yw arweinydd Gwasanaethau'r Gymraeg yn PCGC. Ymunodd â'r sefydliad yn 2016. Yn ystod ei chyfnod gyda'r Cydwasanaethau, mae hi wedi datblygu tîm cyfieithu i gefnogi PCGC i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'n arwain ar agenda'r Gymraeg gyda Phwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau, Uwch Grŵp Arwain Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau a rheolwyr wrth gynllunio gwasanaethau a darparu gwasanaethau Cymraeg.

Hi yw cynghorydd y sefydliad ar ofynion cyfreithiol darparu gwasanaethau Cymraeg, ac mae'n arwain pob ymchwiliad mewnol i gwynion a dderbynnir am wasanaethau Cymraeg, neu pan fydd safonau'r Gymraeg yn cael eu torri. Mae hi hefyd yn gyfrifol am gytuno ar rwymedigaethau a chynlluniau gweithredu gwella gwasanaethau lleol gyda phob maes gwasanaeth a rhaglenni a letyir. Mae Non wedi cael gyrfa amrywiol yn gweithio i'r BBC yma yn y DU, BBC World Service, Y Cyngor Prydeinig, Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Mae gan Non angerdd am ieithoedd eraill ac mae'n siarad Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Arabeg a Groeg. Mae hi wrth ei bodd yn teithio ac yn dysgu am ddiwylliannau gwahanol. Mae'n mwynhau heicio yn yr awyr agored a threulio amser ym mharciau Cenedlaethol Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

# EIN SIARADWYR



## Sut mae Rhwydweithiau Staff yn Cefnogi Diwylliant Sefydliadol

### Raja Biswas

MBBS, FRCP (DU) DGM (DU) CCST mewn Meddygaeth Gyffredinol / Meddygaeth Geriatrig, Meddyg Ymgynghorol – Darlithydd Anrhydeddus BIPCTM – Prifysgol Caerdydd, Cadeirydd – Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dechreuodd Raja ei daith gyda'r GIG ym 1996 fel Uwch-swyddog Preswyl. Mae wedi'i benodi'n Feddyg Ymgynghorol/Geriatregydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar ôl bod yn y swydd ers 2006. Mae'n awyddus iawn i ddarparu gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth. Ar wahân i'w gyfrifoldebau clinigol, mae ganddo ddiddordeb mewn rheoli ysbytai. Ef oedd y Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Clinigol ym maes Meddygaeth rhwng 2019 a 2023. Mae wedi darparu arweinyddiaeth glinigol yn ei sefydliad - gan gynnig y cyswllt hanfodol rhwng clinigwyr a rheolwyr. Ei angerdd arall yw sicrhau chwarae teg i'r holl staff waeth beth fo'u cefndir a'u credoau. Gan ei fod yn feddyg o leiafrif ethnig, mae'n deall yr heriau a'r cyfleoedd yn y GIG i staff o gefndir Lleiafrifoedd Ethnig. Fe'i hetholwyd yn Gadeirydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol (Rhwydwaith BAME yn flaenorol) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - rôl y mae'n defnyddio er mwyn ymdrechu i roi newidiadau cadarnhaol ar waith i'r holl staff, waeth beth fo'u hethnigrwydd.



### Rob Workman

Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ar hyn o bryd mae Rob yn Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac yn Gadeirydd Calon, sef Rhwydwaith Staff LHDT+ a Chynghreiriaid. Dechreuodd weithio yn y sefydliad fel mCynorthwy-ydd Therapi Galwedigaethol yn 1999 ac mae wedi parhau'n fodlon yn y gwasanaeth oddi ar hynny. Cyn symud i rôl arweiniol, ei arbenigedd clinigol oedd adsefydlu pobl hŷn, gan gynnwys strôc, cwympiadau a dementia, lle bu'n gweithio ar wardiau prysur i ddarparu sesiynau therapi a threfnu rhyddhau cleifion yn ddiogel.

# SIARADWYR EIN GWEITHDAI

## Herio Penderfynu Torfol: 5 Ffordd o Feithrin Diogelwch Seicolegol yn eich sefydliad

Mae diogelwch seicolegol yn gred gyffredin o fewn tîm ei fod yn ddiogel i fentro, siarad am gamgymeriadau a bod yn ffyddlon i chi'ch hun yn y gwaith, heb ofni y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau personol neu broffesiynol negyddol. Mae'n chwarae rhan mewn llesiant trwy greu amgylchedd lle gellir croesawu newid, gyda hyder bod lle i ddatrys gwrthdaro.

Yn ein gweithdy byddwn yn edrych ar y gwahanol ffyrdd y gallwn feithrin diogelwch seicolegol a chydnabod rhwystrau i hyn yn eich sefydliad. Rydym am greu diwylliant o fod yn agored a fydd yn caniatáu i eraill fynegi eu pryderon, eu hamheuon, a hyd yn oed eu methiannau.



### Rob Blake

Pennaeth Diwylliant/Profiad y Gweithlu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Rob wedi gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ers saith mlynedd ac mae'n Aelod Siartredig CIPD, yn weithiwr AD proffesiynol, ac mae ganddo 20 mlynedd mewn amrywiaeth o sectorau o'r gwasanaeth sifil, manwerthu, y BBC a GIG Cymru. Mae Rob yn angerddol am ddiwylliant sefydliadol, profiad staff, llesiant, ymddygiad dynol ac arweinyddiaeth ac mae'n hyfforddwr, cyfryngwr a hwylusydd 360 achrededig.

Yn ei amser hamdden, mae'n gwirfoddoli i'r elusen 2wish Upon a Star sy'n ceisio cefnogi teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth plentyn.



### Denise Fitzsimmons

Ymarferydd Datblygu Sefydliadol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Denise yn weithiwr proffesiynol CIPD cymwysedig y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ac mae ganddi 13 mlynedd o brofiad AD cyffredinol ym maes Gofal Iechyd, Peirianneg, Addysg a Recriwtio ac mae'n arbenigwr mewn gwrthdaro sefydliadol ac yn Gyfryngwr cymwys.

# SIARADWYR EIN GWEITHDAI



## Beth yw'r ots?/ Pwy sy'n malio?: pam fod y Gymraeg yn bwysig ym maes gofal iechyd a sut ydyn ni'n dechrau ennill cefnogaeth? Nid darlith yw hon!

**Jo Williams**
Rheolwr Iaith Gymraeg
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Rwyf wedi gweithio i'r GIG ym maes hybu iaith ers dros 14 mlynedd ar ôl dechrau fy ngyrfa yn y celfyddydau. Perfformio ar lwyfan oedd ac yw fy angerdd, serch hynny mae'r cariad at fy iaith yn dod yn ail agos iawn.

Ar ôl colli fy mam i ganser yn fy 30au cynnar, daeth y swydd hon i fyny a gwnes gais amdani gyda'r gobaith y gallwn wneud gwahaniaeth i'r rhai sydd ei angen. Rwy'n dal i gredu y gallaf, ac rwy'n dal i gredu bod cyfathrebu da yn ganolog i bob gofal da o fewn y GIG. Roeddwn yn ddigon ffodus i gefnogi'r gwerthoedd hyn ar secondiad yn Llywodraeth Cymru gan weithio ar weithredu'r fframwaith 'mwy na geiriau' ac rwy'n credu'n gryf y gallwn, drwy gydweithio, ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar adeg pan fo'r angen mwyaf ar gleifion a theuluoedd.

# SIARADWYR EIN GWEITHDAI

## Dyma ein PCGC ni - Rhaglen Newid Diwylliant gan gynnwys Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Yn y sesiwn hon, bydd Julia Denyer ac Abigail Alzetta yn rhannu eu profiadau o arwain ar raglen newid diwylliannol ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Bydd y sesiwn hon yn eich arwain drwy'r daith o'r rhesymau dros newid i'r canfyddiadau cychwynnol, i'r cynllun gweithredu a thu hwnt. Mae gwersi i'w dysgu a mwy i'w cyflawni a rhai enillion pendant i'w rhannu.



### Julia Denyer

Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Mae gan Julia gefndir mewn addysg a TG ar ôl dechrau ei gyrfa ym maes dadansoddi fforensig cyfrifiadurol a hyfforddiant ar lefel ryngwladol. Symudodd Julia wedyn i hyfforddiant sector preifat cyn ymuno â'r GIG fel Hyfforddwr TG yn 2004. Drwy gydol ei thaith yn GIG Cymru, mae Julia wedi gweithio ar lefel Cymru gyfan ers 2008 gan ddechrau gyda'r rhaglen datblygiad proffesiynol gwybodeg iechyd cyn symud i rôl datblygu sefydliadol ehangach. Yn Ymarferydd Datblygu Sefydliadol profiadol, yn hyfforddwr a mentor, mae Julia yn falch o arwain a chefnogi tîm o gydweithwyr Datblygu Sefydliadol ymroddedig, tîm sydd wedi treblu o ran maint ers iddi ymuno â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn 2018, a thîm sy'n rhannu ei hangerdd dros ymgysylltu, cymell a chefnogi eraill.



### Abi Alzetta

Hwylusydd Datblygu Sefydliadol Arbenigol ar gyfer Diwylliant a Chynhwysiant
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Mae rôl bresennol Abi yn rhoi cyfle iddi ymgysylltu â gwasanaethau a chefnogi'r Rhaglen Newid Diwylliant, Dyma Ein Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn ogystal â mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i gefnogi'r cymunedau o fewn PCGC. Mae hi'n angerddol am wneud gwahaniaeth a bydd yn herio lle bo angen er mwyn sicrhau bod PCGC yn sefydliad cynhwysol a thosturiol. Mae hi wedi bod yn y GIG ers ychydig dros 10 mlynedd. Dechreuodd ei gyrfa ym maes Recriwtio, ac yna yn rhan o'r Gweithlu Meddygol am sawl blwyddyn cyn camu i rôl Rheolwr Cymorth Cyfarwyddiaeth, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn y pen draw, daeth yn ôl i PCGC ym maes am yr hyn mae'n ei wneud, ac yn ymdrechu i sicrhau newid cadarnhaol.

# SIARADWYR EIN GWEITHDAI



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Ymgysylltu â staff nyrsio a gweithredu rhaglen arweinyddiaeth ddiwylliannol

**James Gibbons**
Pennaeth Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ar hyn o bryd rwy'n Bennaeth Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn gyn-athrawes, mae gen i gefndir mewn addysg ddigidol a dylunio cyfarwyddiadol, gan archwilio i sut y gellir defnyddio technoleg i ddarparu profiadau dysgu arloesol. Yn fy rôl bresennol, rwy'n goruchwylio'r gwaith o ddylunio a datblygu ein harlwy arwain a rheoli, ein mentrau datblygu sefydliadol ac arwain ar lunio gweithlu sy'n barod yn ddigidol, fel rhan o'n Cynllun Pobl a Diwylliant, sydd wedi'i greu yn unol â Cymru Iachach: strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

# Gwobrau HPMA Cymru 2022

**Mae gennym nifer o wobrau mewn gwahanol gategorïau i'w cyflwyno yn y Gynhadledd. Yn eu plith mae:**

***Arloesedd:***
Menter arloesol a chreadigol o fewn unrhyw faes adnoddau dynol, datblygu sefydliadol neu reoli'r gweithlu sydd wedi arwain at arfer gwell.

***Rhagoriaeth mewn Datblygu Sefydliadol***
Menter neu brosiect datblygu sefydliadol sydd wedi bod o fudd sylweddol i sefydliad drwy wella effeithiolrwydd neu hyfywedd.

***Partneriaeth Rhwng Cyflogwyr ac Undebau Llafur***
Rhoddir y wobr hon i fenter sy'n dangos yn llawn manteision gweithio mewn partneriaeth go iawn rhwng cyflogwyr ac undebau llafur wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol.

***Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant***
Yn cael ei ddyfarnu i sefydliad sydd wedi gwella amrywiaeth yn sylweddol ac sy'n gallu dangos effaith ar lywodraethu, recriwtio a/neu ddyrchafiad.

***Dadansoddeg y Gweithlu***
Mae'r categori hwn yn cydnabod sut mae dadansoddi data'r gweithlu yn rhoi mewnwelediad, sy'n llunio camau gweithredu, gan arwain at wneud gwell penderfyniadau a gwell perfformiad busnes. Gall y prosiect fod wedi rhoi mewnwelediad perfformiad drwy ddarparu ffordd newydd o edrych ar ddata allweddol, o gasglu'r data neu eu defnyddio mewn ffordd newydd.

***Llesiant***
Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n gallu dangos sut mae mentrau iechyd, ffitrwydd neu lesiant gweithwyr penodol yn cael effaith gadarnhaol ar foddhad, cymhelliant, iechyd neu gynhyrchiant staff.

***Menter Addysg, Dysgu a Datblygu:* Noddir gan Goleg Gŵyr Abertawe**
Mae'r categori gwobr hwn yn dangos cysylltiad cryf rhwng mentrau Dysgu a Datblygu ac nodau allweddol, gan gynnwys rhaglenni arweinyddiaeth ar bob lefel. Diwylliant sefydliadol sy'n hyrwyddo dysgu, yn canolbwyntio ar dalent a pherfformiad, yn defnyddio dulliau cyflwyno arloesol ac sy'n annog bod yn agored ymhlith cyflogeion ynghylch eu hanghenion datblygu.

# Gwobrau HPMA Cymru 2022

### *Gweithio Traws-sector:* Noddir gan ALS
Yn gynyddol, nid oes datrysiadau'n cael eu datblygu na'u darparu gan un sector yn unig, boed yn BBaChau cyhoeddus neu breifat, neu'n gyfuniad o'r ddau, ond yn hytrach, mae angen gwaith cydweithredu traws-sector neu bydd datrysiad yn cael ei ddatblygu gan un sector a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio a'i weithredu mewn sector arall. Mae'r wobr hon ar gyfer prosiect, cynnyrch neu wasanaeth ar draws sectorau sydd wedi cael effaith fesuradwy ac sydd wedi sicrhau canlyniadau gwirioneddol i gleientiaid neu gwsmeriaid y gwasanaeth iechyd.

### *Tîm y Flwyddyn*
Yn cael ei ddyfarnu i dîm gweithlu gofal iechyd yn y DU sydd wedi cydweithio a gwneud cyflawniadau eithriadol dros y 12 mis diwethaf.

### *Y Gymraeg*
Mae hon yn wobr ar gyfer tîm, prosiect neu fenter sydd wedi hybu a/neu ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ei sefydliad.

### *Seren y Dyfodol:* Noddir gan ACT (prif noddwyr ein digwyddiad)
Mae hon yn wobr ar gyfer seren sy'n dod i'r amlwg mewn sefydliad. Bydd yr unigolyn hwn yn modelu gwerthoedd y sefydliad ac yn mynd yr ail filltir o fewn y gweithlu. Bydd rhai a enwebir wedi gweithio o fewn y gweithlu am o leiaf dwy flynedd (ond nid o reidrwydd yn y rôl bresennol). Mae'r wobr hon yn cydnabod yr ymarferwyr hynny yn y gweithlu sy'n gwneud eu gwaith yn arbennig o dda. Dylai'r enwebai fod ar lefel is na lefel y dirprwy gyfarwyddwr neu gyfwerth.



# EIN HARDDANGOSWYR

## Gwasanaeth Llesiant Cyflogeion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae Gwasanaeth Llesiant Cyflogeion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dîm bach o Ymarferwyr Llesiant Seicolegol, Ymwybyddiaeth Ofalgar ac Ymarferwyr Systemig, dan arweiniad Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol a Seicotherapydd Systemig.
Mae gennym hefyd bartner busnes, gweinyddwr a dadansoddwr ymchwil Seicolegol i sicrhau ein bod yn gwerthuso popeth a gynigiwn yn drylwyr. Rydym yn darparu ymyriadau ataliol a thriniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo llesiant emosiynol cadarnhaol gan ddefnyddio dull gofal fesul cam.

Yn ogystal, rydym yn hyrwyddo llesiant ariannol a chorfforol cadarnhaol, gan fabwysiadu dull arloesol, ac yn cydweithio'n agos â rhwydwaith o dros 100 o Weithredwyr Llesiant – staff sy'n frwd dros gefnogi a hyrwyddo eu llesiant eu hunain a'u cydweithwyr yn eu gwasanaethau eu hunain.

Ein gwefan: [https://ctmuhb.nhs.wales/staff/](https://ctmuhb.nhs.wales/staff/)
Facebook:@WellExp
Trydar: @WellExp

## Tîm Cyflogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Ers ei sefydlu yn 2012, mae'r Tîm wedi cynrychioli Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau mewn ystod eang ac amrywiol o achosion yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae'r Tîm hefyd wedi cael y fraint o gynghori ar faterion polisi lefel uchel, strategol sydd wedi dod i'r fei. Maent yn ymwybodol bod y materion yn effeithio ar GIG Cymru yn ei gyfanrwydd ac maent yn delio â hwy yn fedrus ac â chraffter a diplomyddiaeth. Mae cyfreithwyr cyflogaeth arbenigol ar gael i roi cyngor ar bob agwedd ar gyfraith cyflogaeth a materion cysylltiadau gweithwyr.

# EIN HARDDANGOSWYR

hpma Cymru

GIG Cymru NHS Wales — Iechyd a Gofal Digidol Cymru / Digital Health and Care Wales

e-lyfrgell GIG Cymru / NHS Wales e-library

## E-Lyfrgell GIG Cymru

Mae e-Lyfrgell GIG Cymru yn cysylltu defnyddwyr â ffynhonnell fwyaf GIG Cymru o dystiolaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gwybodaeth ddigidol. Ein gweledigaeth yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel er mwyn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a grymuso defnyddwyr i wella ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Darganfyddwch e-Lyfrau, e-Gyfnodolion cronfeydd data, crynodebau tystiolaeth, gwybodaeth am feddyginiaethau, canllawiau, e-Ddysgu o ansawdd uchel a mwy https://elh.nhs.wales/

**Cryfhau partneriaeth gymdeithasol**

**Strengthening social partnership**

## The Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill

Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn ffordd Gymreig o weithio, gan ddod â llywodraeth, busnes ac undebau llafur ynghyd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu a gwella canlyniadau i bobl Cymru. Mae Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cyflawni Rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth i roi sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol er mwyn gwreiddio'r ffordd hon o weithio i fywyd dinesig ac mae creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol, ymhlith dyletswyddau eraill.
Mae'n darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yng Nghynhadledd a Gwobrau HPMA Cymru i siarad mwy â chi am y Bil a sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi yn GIG Cymru. I gysylltu â'r tîm, e-bostiwch: SPEFW@gov.wales

Cyfeiriwch at ddogfennau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yma. Gallwch danysgrifio i gylchlythyr chwarterol y Bartneriaeth Gymdeithasol i gael diweddariadau pwysig ar y Bil yma.

# EIN HARDDANGOSWYR




## Gweithle Iach, Gweithlu Iach, Busnes Iach

Mae Cymru Iach ar Waith yn cael ei darparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi ac annog cyflogwyr i greu amgylcheddau gwaith iach, cymryd camau i wella iechyd a llesiant eu staff, rheoli absenoldeb salwch yn dda ac ymgysylltu â chyflogeion yn effeithiol. Gall pob un ohonynt helpu i gyflawni ystod o ganlyniadau busnes a sefydliadol.

Mae Cymru Iach ar Waith yn darparu arolygon ar-lein i nodi meysydd blaenoriaeth cyflogwyr ar gyfer gweithredu ar iechyd a llesiant ac i lywio datblygiad cynlluniau gweithredu ynghyd â chymorth cynghorwyr iechyd, digwyddiadau hyfforddi, gweithdai, gwybodaeth ac arweiniad.

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW) | Gwella Porth Arweinyddiaeth AaGIC i Gymru

## Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Un o gyfrifoldebau craidd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw cyflawni ein gweledigaeth arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn llywio'r dull hwn o weithredu mae'r Strategaeth ar gyfer Iechyd a Gofal - 'Cymru Iachach' a Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n amlinellu ein huchelgais 'erbyn 2030, bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol.

Mae arweinyddiaeth dosturiol yn golygu canolbwyntio ar berthnasoedd trwy wrando'n ofalus ar bobl eraill, eu deall, cydymdeimlo â nhw a'u cefnogi, gan alluogi'r rhai yr ydym yn eu harwain i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u bod yn cael gofal, fel y gallant gyrraedd eu potensial a gwneud eu gwaith gorau. Mae tystiolaeth glir bod arweinyddiaeth dosturiol yn arwain at staff brwdfrydig ac sy'n ymgysylltu'n well gyda lefelau uchel o lesiant, sydd yn ei dro yn arwain at ofal o ansawdd uchel ('What is compassionate leadership?').

Gwella@HEIW yw'r Porth Arweinyddiaeth a reolir gan dîm Arwain ac Olyniaeth AaGIC gyda'r nod o ddarparu system reddfol, hygyrch i ddefnyddwyr sy'n caniatáu iddynt gael mynediad rhwydd at ystod o adnoddau arweinyddiaeth dosturiol. Mae'r platfform hwn yn hygyrch i bawb ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, waeth beth fo'u swydd neu gymhwyster.

# EIN HARDDANGOSWYR

## Coleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg addysg bellach mawr sy’n darparu addysg a hyfforddiant o’r ansawdd uchaf sy’n ysbrydoli ac yn cefnogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

Gyda saith campws ar draws Abertawe a thua 13,000 o ddysgwyr y flwyddyn, mae’r Coleg yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau amser llawn a rhan-amser, gan gynnwys 40 o bynciau Safon Uwch a 40 o ddewisiadau pynciau galwedigaethol, ochr yn ochr â chyrsiau addysg uwch a phrentisiaethau.

## Addysg a Hyfforddiant Iechyd Trofannol (THET)

Mae gan THET weledigaeth o fyd lle mae gan bawb fynediad at ofal iechyd. Rydym yn cyflawni hyn trwy hyfforddi ac addysgu gweithwyr iechyd yn Affrica ac Asia, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a gwirfoddolwyr o bob rhan o’r DU. Wedi’i sefydlu ym 1988 gan yr Athro Syr Eldryd Parry, ni yw’r unig elusen yn y DU sydd â’r ffocws hwn.

Dros y naw mlynedd diwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â dros 130 o Ymddiriedolaethau GIG, Colegau Brenhinol a sefydliadau academaidd. Rydym yn gweithio’n agos gyda llywodraeth Prydain, ac yn sefydliad mewn Cysylltiadau Swyddogol gyda Sefydliad Iechyd y Byd.

# EIN NODDWYR

hpma Cymru

act.

***Prif noddwyr ein digwyddiadau***

## ACT

ACT yw darparwr hyfforddiant mwyaf blaenllaw Cymru ac mae'n rhan o un o'r grwpiau coleg mwyaf yn y DU. Rydym yn hynod angerddol am wella bywydau pobl trwy ddysgu.

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o raglenni hyfforddi a chymwysterau sy'n helpu pobl i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r rhain yn cynnwys Twf Swyddi Cymru+ (JGW+), Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch ar draws 30 o sectorau gwahanol, hyfforddiant cyflogadwyedd, darpariaeth ysgolion annibynnol, Addysg Bellach rhan-amser a chyrsiau masnachol byr.

Rydym yn falch o'n gwobrau a'n cydnabyddiaeth, gan eu bod yn ein helpu i wybod ein bod yn gwneud y pethau iawn ar gyfer ein dysgwyr a'n staff. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni safon 'da' yn gyffredinol yn ein harolygiad diweddaraf gan Estyn o'n rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith; cael ein gosod fel y 39ain cwmni gorau i weithio iddo yn y DU (100 Cwmni Mawr Gorau'r Cwmnïau Gorau 2021); ac wrth gwrs, cael ein henwi yn Gyflogwr Mawr y Flwyddyn - Gwobr Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl y DU.

Gwefan: acttraining.org.uk

als

## ALS

Mae ALS, un o brif ddarparwyr hyfforddiant Cymru, yn cynnig cymwysterau proffesiynol achrededig wedi'u HARIANNU'N LLAWN i'ch helpu i dyfu eich busnes. Rydym yn rhoi cymorth hyfforddi arbenigol i fusnesau o bob maint, ar draws ystod eang o sectorau a gallwn gynorthwyo eich busnes i recriwtio talent newydd ac uwchsgilio eich gweithlu presennol.

# EIN NODDWYR

hpma Cymru

University of South Wales Prifysgol De Cymru

Academiau Dysgu Dwys Cymru
Intensive Learning Academies Wales

## Prifysgol De Cymru(PDC)

Mae Datblygiad Proffesiynol PDC yn gweithio gyda busnesau a'u gweithwyr i addasu, dylunio a darparu rhaglenni sy'n bodloni eu hanghenion unigol. Mae ein dulliau'n canolbwyntio ar ddysgu drwy brofiad a chydweithio er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth newydd yn cael eu gwreiddio'n ddwfn a'u cymhwyso'n rheolaidd.